Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

24 Gorffennaf 2017

Annwyl Brif Weithredwr,

Ymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad i **Wasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol**.

Fel rhan o'r ymchwiliad, mae'r Pwyllgor wedi bod yn clywed tystiolaeth am fynediad at therapïau seicolegol, ac amseroedd aros ar eu cyfer. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed pa ddarpariaethau sydd ar gael ym mhob Bwrdd Iechyd. I lywio casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- y broses i fenyw y mae angen cymorth therapi seicolegol arni gael mynediad ato;
- amseroedd am fynediad at wasanaethau therapi seicolegol;
- nifer y sesiynau seicolegol clinigol amenedigol unigol a sesiynau i grwpiau a ddarperir gan eich Bwrdd Iechyd bob wythnos;
- dadansoddiad o'r gyfran o amser a dreulir gan bob un o'ch seicolegwyr ar ddarparu sesiynau therapi seicolegol:
  (A) 1-i-1, a
  (B) sesiynau grŵp,
  ar gyfer menywod y mae angen cefnogaeth amenedigol arnynt [rhowch ddata wedi'i ddadgyfuno ar gyfer (a) a (b)].

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael y wybodaeth hon yn fawr erbyn 24 Awst 2017.

Yn gywir

Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565